# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran yr Amgylchedd** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Medi 2023** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. CYFLWYNIAD**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma ydi diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; a lle mae'r mesurau perfformiad arni.

3.2 Hoffwn eich atgoffa bod y materion yma eisoes wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Prif Weithredwr a chynrychiolaeth o uwch swyddogion yr Adran Amgylchedd.

3.3 Yn gyffredinol, rwy'n fodlon gyda'r cynnydd hyd yma ar y prosiectau y mae'r Adran yn arwain arnynt yng Nghynllun y Cyngor ynghyd a'r mesurau perfformiad gan Wasanaethau'r Adran Amgylchedd.

**4. BLAENORIAETHAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028**

Mae'r Adran yn arwain ar bump o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Mae dau o'r blaenoriaethau yn benodol yn y maes Trafnidiaeth, ac fel y gwyddoch mae penderfyniad diweddar wedi ei gymryd i sefydlu swydd Pennaeth Cynorthwyol Trafnidiaeth a fydd yn cynnig adnodd ychwanegol i yrru gwaith ar draws y maes yma yn ei flaen. Mae hyn ynghyd â rôl Pennaeth Cynorthwyol ychwanegol a gyflwynwyd i'r Adran y llynedd gyda chyfrifoldeb penodol am faes Gwastraff ac Ailgylchu, sydd wrth gwrs hefyd yn flaenoriaeth corfforaethol yng Nghynllun y Cyngor.

Crynhoir yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn y pump maes blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor isod:

**4.1 Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

4.1.1 Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y gwaith o baratoi ar gyfer gosod rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn cael rheolaeth gwell o'r tri dosbarth defnydd cynllunio newydd gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022, sef prif gartref, ail gartref a llety gwyliau tymor-byr.

4.1.2 Mae swyddogion polisi cynllunio wedi paratoi papur cyfiawnhau Erthygl 4 a chyflwynwyd y papur yma ynghyd ag adroddiad i Gabinet y Cyngor ar 13 Mehefin 2023 lle rhoddwyd cymeradwyaeth i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac i weithredu ar y camau dilynol.

4.1.3 Gosodwyd 'Rhybudd' Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus, a hyrwyddwyd y cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan, gyda'r arolwg ar gael ar wefan y Cyngor ar dudalen benodol www.gwynedd.llyw.cymru/Erthygl4 ynghyd â chopïau papur o Siop Gwynedd Caernarfon, Pwllheli, Dolgellau a llyfrgelloedd cyhoeddus y sir. Bydd gwaith yn digwydd i ddadansoddi'r ymatebion sydd wedi eu derbyn, gydag adroddiad dilynol i'w gyflwyno i'r Cabinet mor fuan a phosib.

4.1.4 Gan fod hwn yn waith digynsail, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod cefnogaeth ariannol ar gael i'r Cyngor i weithredu'r newid (y cyfraniad yma yn benodol ar gyfer ardal Dwyfor yn unig).

4.1.5 Yn dilyn proses recriwtio diweddar, mae Uwch Swyddog Cynllunio wedi eu penodi i oruchwylio'r maes, gyda Chymhorthydd Cefnogol Cynllunio hefyd yn rhan o'r tîm am gyfnod dros dro hyd at ddiwedd Mawrth 2026.

**4.2 Gwastraff ac Ailgylchu**

4.2.1 Mae paratoi strategaeth gwastraff ac ailgylchu newydd yn flaenoriaeth corfforaethol, gyda'r nod o gynyddu'r lefel ailgylchu a gesglir yn y sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025.

4.2.2 Yn y lle cyntaf, mae gwaith wedi canolbwyntio ar geisio dod i'r afael â'r prif heriau gan gynnwys sicrhau gwell rheolaeth o drefniadau salwch, oriau gwaith a chostau goramser perthynol. Yn ogystal mae gwydnwch wedi ei osod yn y swyddfa gefn ac mae hyn wedi galluogi gwell trefn i ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd.

4.2.3 Mae cynnydd cadarnhaol yn digwydd a chefnogaeth wedi ei ddarparu i arweinyddion tîm i sicrhau trefniadau dychwelyd i'r gwaith effeithiol, a threfniadau ar gyfer rhaeadru gwybodaeth rhagweithiol am gasgliadau.

4.2.4 Mae swyddog iechyd, diogelwch a lles wedi dechrau ar ei waith ym mis Mehefin, a fydd yn cynorthwyo gyda'r ymdrechion o gryfhau iechyd, diogelwch a lles ar draws y maes gwastraff ac ailgylchu.

4.2.5 Gyda disgwyliad fod pob cyngor yng Nghymru yn ailgylchu o leiaf 70% o'r gwastraff a gesglir erbyn 2025, mae sylw hefyd yn troi at ystyried addasrwydd

ein trefniadau trin gwastraff er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyrraedd targedau ailgylchu cenedlaethol heriol.

**4.3 Teithio Llesol**

4.3.1 Fel blaenoriaeth strategol, mae'r Adran yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau teithio llesol er mwyn hybu cerdded a beicio.

4.3.2 Mae cyflwyno gwelliannau i'r rhwydwaith yn gostus ac felly mae'r Cyngor yn ddibynnol iawn ar ddenu arian grant er mwyn cyflawni unrhyw newidiadau sylweddol.

4.3.3 Yn dilyn cyflwyno 3 bid i Lywodraeth Cymru am gyllid Teithio Llesol ar gyfer 3 cynllun gwahanol, llwyddwyd i ddenu £1.2 miliwn i adeiladu Llwybr Ffordd Penrhos, ger Bangor. Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu ar opsiynau ac mae gwaith rhagbaratoi wedi cwblhau a disgwylir y bydd gwaith yn cychwyn ar y safle yn ystod mis Hydref ar wedd cyntaf y gwelliannau.

4.3.4 Mae'r Cyngor hefyd wedi sicrhau £280,000 o gronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i wella darpariaeth cerdded a beicio ger Ysgol Godre'r Berwyn yn Y Bala. Mae gwaith yn bwrw ymlaen i gynllunio'r gwelliannau yma a fydd angen eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

4.3.5 Mae swyddogion yn trafod sut allwn ni gryfhau cynlluniau eraill gyda Thrafnidiaeth Cymru er mwyn ceisio sicrhau cyllid i'r dyfodol. Mae swyddogion yn defnyddio cyfran o'r £500,000 arian craidd Teithio Llesol sydd wedi ei dderbyn i ddatblygu cynlluniau mewn ardaloedd eraill, gyda'r bwriad o allu cyflwyno ceisiadau am grant i wireddu cynlluniau yn y blynyddoedd nesaf.

4.3.6 Ar hyn o bryd, y prif gynlluniau sy'n cael eu datblygu ydi Afonwen i Chwilog, Tywyn i Aberdyfi a Llanrug i Gaernarfon, gyda sylw hefyd i ail wedd cynllun Ffordd Penrhos.

4.3.7 Dylid nodi hefyd fod y Cyngor wedi sicrhau £1.8 miliwn o'r gronfa Ffyniant Bro ar gyfer cyflwyno gwelliannau i Lôn Las Ogwen, gyda gwaith i wella'r llwybr yn cychwyn yn fuan iawn.

**4.4 Trafnidiaeth Gyhoeddus**

4.4.1 Mae adolygu'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn un o brosiectau strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cyfleus, dibynadwy a rhesymol ei gost i drigolion Gwynedd allu teithio yn hwylus trwy'r wythnos.

4.4.2 Mae staff yr adran wedi bod yn gweithio yn agos gyda Trafnidiaeth Cymru dros y misoedd diwethaf i ddatblygu rhwydwaith newydd o wasanaethau yn cynnig amserlenni safonol ar gyfer ardaloedd megis Dyffryn Nantlle yn y lle cyntaf. Mae'r ardal wedi profi lleihad sylweddol yn y ddarpariaeth ers i gwmni lleol fynd i'r wal ac mae'r gwasanaethau newydd wedi cychwyn ers mis Gorffennaf 2023. Hyd yma, mae'r ymateb wedi bod yn galonogol, a byddwn yn parhau i weithio ar ardaloedd eraill dros y misoedd nesaf.

4.4.3 Mae Sherpa'r Wyddfa wedi cael ei dendro am 5 mlynedd gan gychwyn o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2028, gydag ymestyniad y gwasanaeth, ac rydym yn monitro ei ddatblygiad a pherfformiad.

4.4.4 Hyd yma, mae'r ymateb yn hynod gadarnhaol, ac yn dangos cynnydd o 29% yn nifer y teithwyr o'i gymharu gyda'r un cyfnod y llynedd.

4.4.5 Disgwylir y bydd gwasanaeth newydd T22 yn gweithredu yn ystod yr hydref gan wasanaethu Blaenau Ffestiniog – Caernarfon heibio Porthmadog, a hynny efo pedwar o fysiau newydd trydan fydd yn gweithredu allan o safle pwrpasol ym Mhorthmadog.

4.4.6 Mae hyn yn ddatblygiad cyffrous ar gyfer y rhwydwaith yng Ngwynedd, a byddwn yn monitro y bysiau trydan ac yn ystyried sut y gallwn wneud defnydd o fysiau tebyg mewn rhannau eraill o'r rhwydwaith i'r dyfodol.

4.4.7 Oherwydd y sefyllfa ariannol a diffyg cystadleuaeth gan gwmnïau, mae posib y bydd cost cynnal y gwasanaeth yn uwch na'r gwasanaethau presennol ar hyd y llwybr.

4.4.8 Yn dilyn cyfnod digynsail o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i'r diwydiant yn ystod y pandemig, mae swyddogion y Cyngor yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar y pecyn ariannol y tu hwnt i Ebrill 2024, ac yn blaengynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf.

**4.5 Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

4.5.1 Mae llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd wedi ei adnabod fel blaenoriaeth gyda'r nod o gyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

4.5.2 Mae adroddiad ar Drefniant Llywodraethu ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi derbyn ystyriaeth a chefnogaeth Cabinet y Cyngor ym Mehefin. Cytunwyd i sefydlu Gweithgor Polisi Cynllunio o 15 aelod, ynghyd â chylch gorchwyl i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

4.5.3 Ers hynny, mae gwaith yn bwrw ymlaen i greu'r Gweithgor Polisi Cynllunio newydd, gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod cyntaf cychwyn mis Medi.

4.5.4 Bydd Cytundeb Cyflawni drafft yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet ym mis Hydref ar gyfer penderfyniad i fynd allan ar gyfer cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus.

**5. PERFFORMIAD**

Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers dechrau Ebrill 2023. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, gan dynnu sylw at y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**Gwastraff ac Ailgylchu**

5.1 Gyda tharged heriol i ailgylchu 70% o'r gwastraff a gesglir o fis Mawrth 2025, mae'n galonogol adrodd fod perfformiad Ebrill i Fehefin eleni yn dangos fod 67% o wastraff wedi ei ail-ddefnyddio, ailgylchu neu gompostio.

5.2 Yn ogystal, dengys y data diweddaraf fod y cyfanswm gwastraff gweddilliol a gesglir o gylchdeithiau domestig y sir ar gyfer misoedd cyntaf 2023/24 (4,100 tunnell) yn is na'r un cyfnod y llynedd (4,228 tunnell).

5.3 Er hyn, mae'n glir fod yna ymdrech sylweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed cenedlaethol nesaf o 2025.

5.4 Mae ffigyrau ailgylchu yn cael eu hadrodd yn genedlaethol bob chwarter ar hyn o bryd, ac rydym yn gweithio i foderneiddio ein trefniadau i sicrhau y bydd data mwy byw ar gael i ni yn y dyfodol. Bydd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu i gymryd camau rhagweithiol i ymateb i unrhyw batrymau amlwg.

**Bwyd a Diogelwch**

5.5 Mae'r Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch yn sicrhau fod bwyd a diod sy'n cael ei werthu i'w fwyta a'i yfed yn ddiogel i'r cyhoedd ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu. Mae'r ffigyrau diweddaraf a adroddwyd yn dangos fod y mwyafrif llethol o fusnesau bwyd Gwynedd yn parhau i gyrraedd safonau hylendid bwyd disgwyliedig.

5.6 O'r 2,098 o fusnesau bwyd sy'n destun y drefn sgorio, roedd 99% yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch (sgôr o 3 neu uwch), gyda 23 ddim yn cwrdd â'r safon (1%). Mae'n bwysig nodi fod y Gwasanaeth yn ail-ymweld pob eiddo sy'n derbyn sgôr o 2 neu is o fewn 3 mis o'r archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod safonau wedi gwella.

5.7 Ynghyd â'r gwaith o gynnal arolygiadau safonau a hylendid bwyd, mae'r Gwasanaeth hefyd yn delio gyda cheisiadau am wasanaeth, rhai y mae modd ymdrin â nhw yn syth ac eraill sy'n cymryd rhai misoedd i'w datrys. Tra bydd monitro yn parhau ar y nifer cronnus o geisiadau sy'n agored, mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos fod 82% o'r ceisiadau a dderbyniwyd hyd yma eleni wedi eu cau.

**Safonau Masnach**

5.8 Mae'r Gwasanaeth yn ymwneud â gwarchod defnyddwyr a materion iechyd a lles anifeiliaid. Mae archwiliadau yn cael eu rhaglennu ar sail blaenoriaeth, a chanolbwyntio ar fusnesau risg uchel. Llwyddwyd i gwblhau pob un o'r 49 archwiliad y llynedd ac eleni mae'r nifer o archwiliadau risg uchel sydd angen eu cwblhau eleni wedi lleihau o 49 i 40. Mae hyn yn dyst fod busnesau

a oedd wedi eu hadnabod fel categori risg uchel yn y gorffennol, wedi llwyddo i wella eu hymdrechion.

5.9 Wrth gwrs, mae gwaith swyddogion Safonau Masnach hefyd yn gallu arwain at gamau gorfodaeth os nad ydi perchnogion busnes yn cydymffurfio gyda'r gofynion. Mae swyddogion yn gwneud pob ymdrech i gynghori ond mewn rhai achosion difrifol mae'n ofynnol i gymryd camau pellach ac mewn achosion difrifol lle nad oes opsiwn arall i erlyn fel sydd wedi ei weld mewn rhai achosion diweddar.

**Llygredd a Thrwyddedu**

5.10 Mae'r Gwasanaeth yma yn sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn ymwneud â thacsis, alcohol, gamblo ac adloniant yn cael eu darparu mewn modd sy'n gwarchod yn cyhoedd a chefnogi busnes.

5.11 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ymestyn y cyfleoedd i geisiadau trwyddedau tacsi gael eu cyflwyno ar-lein trwy system hunan-wasanaeth. Gan fod hwn yn system newydd i nifer o ymgeiswyr, gall oediad prosesu ddigwydd mewn rhai achosion wrth i ddogfennau anghyflawn neu anghywir gael eu uwch-lwytho gyda'r cais.

5.12 Fe benodwyd dau swyddog trwyddedu dros dro i lenwi swydd wag a chyfnod mamolaeth ym mis Mawrth, ac mae hyfforddai Gwarchod y Cyhoedd wedi bod yn cyfrannu at y gwaith. Er mai cychwyn eu cyfnod hyfforddiant oedd y swyddogion, mae cyfartaledd amser prosesu dros y misoedd diwethaf wedi gostwng, gyda chyfartaledd o 11 diwrnod i brosesu cais am drwydded tacsi.

**Cynllunio**

5.13 Yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn, derbyniwyd 258 o geisiadau cynllunio newydd, a phenderfynwyd 264 o geisiadau (88% o fewn yr amser statudol). Roedd amser penderfynu ar gyfartaledd yn 88 diwrnod, o'i gymharu gyda chyfartaledd o 92 diwrnod yn 2022/23, a 103 diwrnod yn 2021/22.

5.14 Mae'r gwelliant yma yn adlewyrchu cynnydd cadarnhaol gan y Gwasanaeth ac yn wir mae ffigyrau diweddar cenedlaethol wedi dangos fod perfformiad Gwynedd y pumed gorau o blith Awdurdodau Cynllunio o ran yr amser i benderfynu ar gais.

5.15 Mae gan y gwasanaeth rôl i ymchwilio a chymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb dderbyn caniatâd cynllunio. Ar gyfer y cyfnod dan sylw, derbyniwyd 58 achos newydd a llwyddwyd i gau 26 achos. Mae gwaith yn digwydd i ddelio gyda'r ôl-groniad o achosion hanesyddol a oedd yn parhau yn agored ar y system, ond cydnabyddir fod y sefyllfa yn parhau yn heriol.

5.16 Mae'n braf gallu adrodd fod y Gwasanaeth Cynllunio wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflogi 2 hyfforddai proffesiynol cynllunio am 3 blynedd. Tra bod y swyddogion yn parhau i ymgymryd â'r dyletswyddau a dod i

ymgyfarwyddo gyda'r maes, mae'r Gwasanaeth yn hyderus y bydd y staff ychwanegol newydd yma yn cynnig cymorth allweddol i'r dyfodol.

**Polisi Cynllunio**

5.17 Mae staff y Gwasanaeth yma yn darparu arweiniad polisi ar geisiadau cynllunio a cheisiadau cyn-cyflwyno ceisiadau. Dengys y perfformiad diweddaraf fod pob un o'r 39 ymateb as ddarparwyd gan y Gwasanaeth ar yr ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais wedi ei eu cyflwyno o fewn 10 diwrnod.

5.18 Mae'n gofyn statudol i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n adrodd ar berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref yn flynyddol. Mae gwaith wedi cychwn ar adroddiad 2022/23 wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth, ac fel y nodwyd eisoes, mae'r Gwasanaeth hefyd yn paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd sydd wrth gwrs yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

**Rheolaeth Adeiladu**

5.19 Mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn gweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid fel bod gan ein cymunedau adeiladau sy'n ddiogel, yn ynni-effeithlon, yn darparu mynediad a chyfleusterau i bobl ag anableddau, ac sy'n cwrdd â gofynion angenrheidiol y Rheoliadau Adeiladu.

5.20 Yn ystod y cyfnod dan sylw, penderfynodd y Gwasanaeth 96% o geisiadau rheolaeth adeiladu o fewn y cyfnod statudol, ac ar gyfartaledd ymatebwyd i rybuddion o adeiladau a strwythurau peryglus gan sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn ddiogel o fewn 24 awr o hysbysu. Er bod adeiladau/ strwythurau wedi eu gwneud yn ddiogel, mae nifer o achosion cymhleth sylweddol yn parhau i gymryd cryn dipyn o amser ac adnoddau'r tîm.

5.21 Tynnir sylw at adroddiad diweddar Archwilio Cymru sef: 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru, sydd yn codi nifer o bryderon am ddarpariaeth gwasanaeth rheolaeth adeiladu yng Nghymru, ac yn amlygu'r angen i gydymffurfio a'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau newydd fydd yn dod yn weithredol flwyddyn nesaf, sydd yn deillio o drychineb Grenfell.

**Pridiannau Tir**

5.22 Mae Uned Pridiannau Tir Lleol Gwynedd yn darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno prynu eiddo neu dir o fewn Gwynedd. Yn dilyn cyfnod hynod o heriol gyda chynnydd yn y nifer o geisiadau ac ymholiadau a throsglwyddo i system gyfrifiadurol genedlaethol newydd, mae'n braf gallu adrodd fod perfformiad yn gwella.

5.23 Gyda'r mwyafrif o'r gwaith ynghlwm a throsglwyddo i'r system newydd i ymdrin â chwiliadau wedi ei gwblhau, mae wedi bod yn bosib rhyddhau capasiti ychwanegol i helpu gyda chwiliadau ac ymateb yn amserol i ymholiadau. Yn sgil hynny, mae'r cyfartaledd amser prosesu ar gyfer y cyfnod

dan sylw wedi gwella i 24 diwrnod, sy'n cymharu gyda chyfartaledd o 38 diwrnod prosesu ar gyfer 2022/23.

**Parcio a Gwaith Stryd**

5.24 Fel rhan o waith y Gwasanaeth i sicrhau rheolaeth ddiogel o'r brifffordd, mae swyddogion gorfodaeth parcio yn gweithredu ar draws y sir, gyda gwasanaeth yn weithredol dros 7 diwrnod yr wythnos.

5.25 Mae'r gwasanaeth yn derbyn cwynion yn ddyddiol am holl agweddau sy'n ymwneud â pharcio, ac mae'r mesurydd yma yn dangos yr amser a gymerir i ymateb i gwynion am gerbydau wedi parcio'n anghyfreithlon ar gyfyngiadau parcio. Ar gyfer yr cyfnod dan sylw, derbyniwyd 31 o gwynion, gyda staff yn ymweld â phob safle o fewn tridiau, gyda chyfartaledd cyfnod prosesu yn 1 diwrnod.

5.26 Caiff dirwyon eu rhoi i gerbydau sy'n parcio yn groes i'r cyfyngiadau ar y stryd ac oddi ar y stryd (meysydd parcio). Mae'r mesurydd yma yn ymwneud â'r ganran o apeliadau yn erbyn tocynnau parcio fu'n llwyddiannus. O'r holl docynnau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod, fe gafodd 7% ohonynt eu dileu a gyda'r mwyafrif o apeliadau llwyddiannus gan unigolion oedd heb arddangos tocynnau dilys am amryw o resymau (tocyn wedi syrthio o'r golwg ayb). Mae pob apêl yn derbyn ystyriaeth lawn, a phan mae tystiolaeth glir fod camgymeriad diffuant wedi digwydd, mae'r ddirwy yn cael ei dileu. Mewn achosion lle mae apêl yn cael eu gwrthod, mae hawl i drosglwyddo i feirniad annibynnol am ystyriaeth a gellir adrodd na chafwyd unrhyw achos yn erbyn y Cyngor yn y cyfnod dan sylw.

5.27 Mae archwilwyr stryd y gwasanaeth yn cydlynu a monitro'r holl weithgareddau ar rwydwaith y brifffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol (trydan, nwy, dŵr ayb), gan ymgeisio osgoi sefyllfaoedd o ardaloedd yn cael eu haflonyddu am gyfnodau hir oherwydd gweithiau.

5.28 O'r 533 gwaith gan ymgymerwyr statudol yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn, cwblhawyd 88% o fewn yr amserlen gwreiddiol. Gosodir amodau penodol i geisio rheoli effaith ar y rhwydwaith, ac mewn rhai amgylchiadau ni roddir opsiwn i ymgymerwr allu ymestyn cyfnod.

**Traffig, Prosiectau a Llwybrau**

5.29 Mae'r Gwasanaeth yma wedi profi cyfnod heriol oherwydd pwysau ychwanegol wrth weithredu cynllun cyflymder cenedlaethol newydd o 20mya. Er hynny, mae pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw yn amserol ac mae gwaith wedi bod yn digwydd i chwynnu ceisiadau hanesyddol y mae modd eu cau.

5.30 Roedd cynnydd yn y gwaith ynghlwm gyda'r prosiect 20mya cenedlaethol wedi cael effaith ar gapasiti'r tîm i ymateb i ymholiadau cyffredinol yn y cyfnod dan sylw. Er bydd y galw yn sgil y prosiect cenedlaethol yn parhau wrth i'r newid ddod i rym, mae'r gwasanaeth yn obeithiol y bydd modd ail-

flaenoriaeth wedi hynny a rhoi sylw priodol i ymholiadau a chwynnu unrhyw ôl-groniad.

5.31 Mae'r tîm llwybrau hefyd wedi cyflwyno mesur newydd dros y misoedd diwethaf o ran ymholiadau am faterion hawliau tramwy, llwybr arfordir a'r lonydd glas. Mae gwaith yn parhau i wreiddio ac mae hyfforddiant ar y system newydd yn cael ei ddarparu, ond mae lefel yr ymholiadau yn uchel a bydd angen cadw golwg ar hynny dros y misoedd nesaf.

**6. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION**

6.1 Roedd adroddiad Cyfrifon Terfynol 2022/23 – Alldro Refeniw a ystyriwyd gan y Cabinet ar 13 Mehefin 2023 yn dangos parhad yn y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu.

6.2 Mae cyfrifoldeb wedi trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd ac mae adolygiad cynhwysfawr wedi adnabod ffyrdd i wella'r gwasanaeth gyda chamau i ymateb i'r sefyllfa i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn er mwyn dod a'r gwariant dan reolaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn brosiect hir dymor ac fel rhagrybudd ni fydd posibl dod i sefyllfa lled niwtral o fewn 12 mis.

6.3 Mae targed cynlluniau arbedion yr Adran ar gyfer 2023/24 yn £319,188. Mae gwaith yn bwrw ymlaen ar y cynlluniau yma, sydd un ai wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Amgylchedd.